**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Mawrth 2008**

## Y DIWEDDARAF GAN WEITHGOR YR HYRWYDDWYR

**Adroddiad ar y cyd gan y Cynghorydd Ted George, Hyrwyddwr Cefnogi a Datblygu Aelodau a Rhian Evans, Swyddog Cyswllt Aelodau**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Hysbysu aelodau o waith Gweithgor yr Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol a Chefnogi a Datblygu Aelodau ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod ar 17eg Rhagfyr 2007.

### Cefndir

**2.** Mae gan Weithgor yr Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol a Chefnogi a Datblygu Aelodau, sefydlwyd deuddeg mis yn ôl, gylch gwaith deublyg. Mae wedi cael y dasg o lunio cysylltiadau gwaith cryfach rhwng y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r awdurdodau cyfansoddol ym maes diogelwch tân cymunedol ac i wella cefnogaeth a datblygiad yr aelodau yn unol â Breinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau: Fersiwn yr Awdurdodau Tân ac Achub.

**Gwybodaeth**

**3.** Fe gyfarfu'r Gweithgor ar 16eg Ionawr 2008. Yn ystod y cyfarfod, penderfynodd y Gweithgor fod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn parhau i adlewyrchu ei ddiddordebau presennol, ac felly, nid oedd angen ei ddiwygio. Derbyniodd y Grŵp ddiweddariad ar ffynonellau ariannu amgen a sut oedd gwahanol fentrau a phrosiectau yn manteisio trwy gydweithio at ddiben denu arian a chyflwyno gwasanaethau.

**4.** Trafodwyd y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol hefyd. Penderfynodd y Gweithgor i fynd at yr awdurdodau cyfansoddol i geisio eu barn ar ddichonolrwydd sefyllfa lle byddai'r holl awdurdodau lleol yn cynnal cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgorau eraill ar yr un diwrnod/dyddiau o'r wythnos. Byddai hyn o gymorth i sefydliadau eraill y mae cynrychiolwyr y cynghorau yn gwasanaethu arnynt, megis yr Awdurdod Tân ac Achub, i gael cymaint o bobl ag sy'n bosib yn bresennol yn eu cyfarfodydd.

**5.** O ran diogelwch cymunedol rhoddwyd cyflwyniad i aelodau ar amgylchiadau'r tân angheuol diweddar yng Nghonwy a'r gwaith wnaed o ganlyniad iddo. O ganlyniad i'r cyflwyniad yma, gwnaeth y Gweithgor gais fod holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub o'r sir berthnasol yn cael eu hysbysu am danau angheuol mewn cartrefi o fewn eu hardaloedd sir a fod Hyrwyddwr Diogelwch Cymunedol yr Awdurdod dros y sir honno yn derbyn gwahoddiad i fynychu'r sesiwn friffio wedi'r digwyddiad.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**6.** Rhoddwyd manylion ar y sefyllfa bresennol yn ymwneud â'r nifer o geisiadau am Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a dderbyniwyd hyd yma yn y flwyddyn ariannol bresennol, yn ogystal â'r nifer sydd eto i'w cwblhau. Hysbyswyd yr Hyrwyddwyr am y gwaith sydd ar fynd ar hyn o bryd gyda'r 3 Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Ngogledd Cymru, mewn ymgais i gynyddu'r nifer o geisiadau gan bobl sy'n agored i niwed am Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref. Hysbyswyd y grŵp hefyd am ymgyrch 'Pledge to Drive Safely', 'Brake', yr elusen diogelwch ar y ffyrdd.

**7.** Mae sefydlu o Gweithgor, sy'n gyfrifol am noddi a hyrwyddo cefnogaeth a datblygiad aelodau, yn ofyniad hanfodol am achrediad o dan Freinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Mae'r Awdurdod Tân ac Achub eisoes wedi nodi ei fwriad i wneud cais am achrediad o dan y Freinlen.

**8.** Ar 16eg Ionawr 2008, fe gymeradwyodd y Gweithgor holiadur Adolygu Busnes a holiadur Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant. Bydd yr holiaduron yma'n cael eu dosbarthu i bob aelod o'r Awdurdod yn dilyn dechreuad yr awdurdod newydd ym Mehefin 2008. Bydd yr ymatebion i'r holiaduron yn cael eu defnyddio fel sail i hysbysu trefniadau ar gyfer cyfarfodydd Awdurdod yn y dyfodol ac am gyfleoedd hyfforddi a datblygu fydd yn cael eu darparu ar gyfer aelodau.

**9.** Roedd yr Awdurdod Tân ac Achub, yn ei gyfarfod ar 17eg Rhagfyr 2007, wedi rhoi'r gorchwyl o ymgymryd ag hunanasesiad yn erbyn meini prawf y Freinlen i'r Hyrwyddwyr er mwyn pennu os fyddai'r Awdurdod mewn safle i arwyddo Datganiad o Fwriad i wneud cais am lefel sylfaenol achrediad y Freinlen yn y cyfarfod presennol.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**10.** Ystyriwyd yr hunanasesiad yma gan y Gweithgor yn ystod y cyfarfod ac wedi hyn, cytunodd y Grŵp i argymell i'r Awdurdod ei fod yn symud ymlaen i arwyddo'r Datganiad o Fwriad (mae copi ynghlwm fel Atodiad 1) yn y cyfarfod presennol a'i fod hefyd yn mabwysiadu datganiad sy'n datgan ei ymrwymiad i gefnogi a datblygu aelodau.

**11.** I wella gwybodaeth a dealltwriaeth yr aelodau o waith y Gwasanaeth ymhellach, awgrymodd y Grŵp fod cyflwyniadau byr ar agweddau gwahanol o'i waith yn dod yn eitem barhaol ar agenda cyfarfodydd yr Awdurdod llawn. Y cynnig yw cychwyn y cyflwyniadau yma yng nghyfarfod yr awdurdod ym mis Mehefin oherwydd bydd nifer o aelodau newydd yn bresennol yn dilyn etholiadau'r awdurdodau lleol.

**12.** O ddyddiad arwyddo'r Datganiad o Fwriad, fe fydd gan yr Awdurdod gyfnod o 6 mis i gasglu a chyflwyno ei bortffolio tystiolaeth i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac i sicrhau fod yr holl fesurau hanfodol yn eu lle cyn derbyn ymweliad gan Dîm Adolygu Cymheiriaid fydd yn asesu ei gyrhaeddiad yn erbyn y meini prawf gosodedig.

**13.** Yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod, adroddwyd fod Awdurdodau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru yn bwriadu arwyddo'r Datganiad o Fwriad, er mwyn rhoi eu hunain ymlaen am achrediad lefel sylfaenol y Freinlen cyn etholiadau'r awdurdodau lleol ym mis Mai 2008. Gwaetha'r modd, mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi gohirio'r bwriad i ymgeisio tan yn hwyrach ymlaen. Fodd bynnag, mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn bwriadu symud ymlaen gyda'i gais a disgwylir iddo arwyddo'r Datganiad o Fwriad yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 21ain Ebrill 2008.

**Argymhellion**

**14.** Fod aelodau yn:

**14.1** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd;

**14.2** mabwysiadu'r datganiad canlynol:

"Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ymrwymo i greu amgylchedd o addysgu a datblygu er mwyn rhoi'r lefel angenrheidiol o sgiliau a dealltwriaeth i aelodau i'w galluogi i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon"; ac

**14.3** awdurdodi'r Cadeirydd i Arwyddo'r Datganiad o Fwriad i wneud cais am lefel sylfaenol Breinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau – fersiwn yr Awdurdodau Tân ac Achub i'w gyflwyno i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a bod swyddogion yn symud ymlaen i gasglu portffolio tystiolaeth i'w gyflwyno i'r Gymdeithas i gefnogi ei gais.